


Y DYDD cyntaf o Awst 1722, cychwynnodd Richard Morris (1703-79), gŵr ifanc pedair ar hugain oed, o Fôn am Lundain. Yno, ym Medi 1751, naw mlynedd ar hugain ar ôl cyrraedd yno, fe sefydlodd Gymdeithas y Cymmrodorion, hynny gyda chefnogaeth gref ei frawd hŷn, Lewis. Nid rhyfedd mai Richard oedd llywydd cyntaf y gymdeithas, swydd a ddaliodd hyd ei farw.

Yn rhan o'i gweithgaredd cyhoeddodd y gymdeithas ddwy gyfrol o'i *Gosodedigaethau* (Constitutions) — un yn 1755 (tt.51) ac un arall yn 1778 (tt.68), a hefyd dwy *Gofrestr* o'i haelodau — y tro cyntaf yn 1759 (tt.8) ac eilwaith yn 1762 (tt.15). Argraffwyd y pedair cyfrol yn Llundain. Ac eithrio un o'r pedair, sef y leiaf (a gyhoeddwyd yn 1759) y mae'r lleill gennyf. Daeth cyfrolau 1755 a 1762 imi yn anuniongyrchol o Lyfrgell Coleg Methodistiaid Calffinaidd Y Bala, a chyfrol 1778, eto'n anuniongyrchol, o lyfrgell D. R. Hughes.

Mae'r *Gosodedigaethau*, y ddwy gyfrol, yn cynnwys dwy wyneb-ddalen hardd, un Gymraeg ac un Saesneg. Tebyg hefyd yw eu cynnwys: 'Rhaglythyr' dwyieithog, Cyfansoddiad y Gymdeithas yn Saesneg, ei hamcanion yn ddwyieithog, geiriau Cymraeg

# YMYL Y DDALEN



Cân y Cymmrodorion (gwaith Lewis Morris) a genid wrth dderbyn aelod, awdl Goronwy Owen i'r Gymdeithas, rhestr yr aelodau ac ar y diwedd yn deg materion yn ymwneud â'r Ysgol Elusennol yn Llundain, y rhain yn Saesneg. Wyneb-ddalen uniaith Gymraeg sydd i *Gofrestr* 1762.

Am y ddwy gyfrol a ddaeth o Lyfrgell Coleg Y Bala ceir 'John Peter, Bala 1874' ar un ohonynt a'r un peth yn union ar y llall ond bod y flywyddyn yn wahanol, sef 1876. Cofir i John Peter (1833-77), gweinidog llengar a dysgedig gyda'r Annibynwyr, wasanaethu yn athro yng Ngholeg Annibynwyr Y Bala. Glynwyd llyfrblat deniadol a chelfydd ar gyfrol 1778 ac arno lun o feini'r orsedd ar gefndir o fynydd, llyn a choed ynghyd â'r geiriau: 'Ex Libris D. R. Hughes'. Pan gyrhaeddodd cyfrol 1755 Gaerbybi ym Mehefin y flywyddyn honno cofnododd Wiliam ei ymateb mewn llythyr at ei frawd Richard yn Llundain: 'lygadrythu a dwys fyfyrto arno...' Tebyg oedd fy ymateb innau dros ddwy ganrif yn ddiweddarach.

Dalier sylw: bydd Cymdeithas y Cymmrodorion yn dathlu dwy ganrif a hanner ei sefydlu yn 2001.

D.W.W.

## Yr Adolygydd a'r Beirniad: Eu Cynnwys a'u Cyfranwyr

Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1996, vii, 131tt. Pris: £7.00. Drwy'r post: £8.50

### gan HUW WALTERS

DAU gylchgrawn chwarterol o'r ganrif ddiwethaf yw'r *Adolygydd* (1850-53) a'r *Beirniad* (1859-79). Fe'u cyhoeddwyd gan gwmni bychan o Annibynwyr, ac fe'u patrymwyd ar Y *Traethodydd*, y cylchgrawn dylanwadol a sefydlwyd ac a olygwyd gan Lewis Edwards, ac y parheir i'w gyhoeddi heddiw.

Ond cyfnodolion a anghofwyd bellach yw'r rhain, er bod cynnwys y ddau yn adlewyrchu diddordebau'r cyfnod mewn hanes a llenyddiaeth, diwinyddiaeth ac athroniaeth, gwyddoniaeth, daearyddiaeth a phynciau'r dydd. Yn wir, gellir dweud bod y ddau gylchgrawn fel ei gilydd yn ddrwydd i feddwl carfan o Gymry diwylliedig ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae'r erthyglau a gyhoeddwyd yn y cylchgronau hyn yn ddiennw, gan ddilyn y patrwm cyffredin a arferid yn chwarterolion Saesneg y cyfnod

megis *Blackwood's Magazine* a *The Edinburgh Review*. Ond trwy ddefnyddio gwahanol ffynonellau printiedig, a deunydd a gadwyd mewn llawysgrif, llwyddodd Huw Walters i 'adnabod' y mwyafrif llethol o awduron Yr *Adolygydd* a'r *Beirniad*, a cheir yma fynegeion cynhwysfawr i gynnwys y ddau gylchgrawn, yn ogystal â bywgraffiad cryno o bob un o'r awduron — tros ddau

gant ohonynt i gyd.

Medd Hywel Teifi Edwards mewn gair o gyflwyniad i'r gwaith hwn: 'Dyma drysorau dau gylchgrawn o bwys — Yr *Adolygydd* (1850-1853) a'r *Beirniad* (1859-1879), wedi'u datgelu'n gampus. Yn dilyn gair o ragymadrodd nodweddiadol drylwy'r a golau, ceir rhestrau o erthyglau'r cylchgronau, enwau eu hawduron, a mynegeion i gynnwys y ddau deitl. I goroni'r

cyfan ceir nodiadau bywgraffyddol cryno ar yr holl gyfranwyr. Mae Huw Walters yn y gwaith hwn wedi'n galluogi i werthfawrogi'n llawer gwell gynnwys dau gylchgrawn, y mae hefyd wedi'n galluogi i droedio tir diwylliant Cymraeg Oes Victoria yn sicrach ein cam.'

Gellir archebu copiau o'r Isadran Farchnata, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth SY23 3BU.

### CYFEILLION AWENYDDGAR (parhad o dudalen 11)

adeg eisteddfod Wrecsam oedd y rhain, am na chynhaliwyd Gorsedd yn Rhiwabon fel yr arfaethwyd. Addawsai Gwallter Mechain eu derbyn mewn enw, yng Ngorsedd Ceri.

Un a ddaeth i Geri am y tro cyntaf yn 1821 oedd John Howells, ysgolfeistr o Lanymddyfri. Gofynasai Ifor Ceri iddo geisio chwilio am weithiau beirdd Dyfed a oedd ar wasgar mewn llawysgrif, almanac neu

gylchgrawn, gan yr hoffai gyhoeddi casgliad ohonynt. Yr oedd ganddo gyfrol o weithiau'r beirdd gwlad o'r ddeunawfed ganrif yn llawysgrif Siôn Siencyn y Bardd Bach, ac yr oedd yn awyddus i John Howells ei weld a dewis ohono. O'r llawysgrif hon y cafwyd rhan helaeth o'r flodeugerdd *Blodau Dyfed* a olygwyd gan John Howells a'i chyhoeddi yn 1824.

Mynegodd John Howells ei ddiolch i Ifor Ceri mewn pedwar englyn sy'n dechrau gyda hwn:

*Yn lonwch iawn elem — er cystir  
Y cawsom o ddifri  
Wledd ragorawl, freimatol fri,  
Gan y gŵr gwyn o Geri.*

ac am y gwmniaeth canodd:  
*Eisteddfod hynod heini — gain heylth  
Gynhaliwyd yng Ngheri,  
Ber dŷmion fu'n barddom  
Melys waith yn ein hiaith ni.*

Fel gŵr trefnus cadwai Ifor Ceri lyfr yn unswydd i'r beirdd gofnodi eu cyfarchion 'awenyddgar' a gofalodd roddi'r dyddiad uwchben pob cyfres. Bendith arno.

MARI ELLIS, Aberystwyth